Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: monitro gan Estyn

## Ysgol Gynradd Llechyfedach

## Dyddiad yr ymweliad: Tachwedd 2013

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Meinir Howells | Arolygydd Tîm |
| Andi Morgan | Cynrychiolydd awdurdod lleol |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Llechyfedach wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn mis Hydref 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd arolygwyr Estyn yn ailymweld â'r ysgol ymhen tua 12 mis i arolygu cynnydd yn ôl yr argymhellion.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Datblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer ysgrifennu yn Saesneg ar draws y cwricwlwm

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae ffocws ysgol gyfan clir wedi bod ar wella cyfleoedd i ddisgyblion i ysgrifennu yn Saesneg ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn gweithredu cwricwlwm diwygiedig sy'n nodi cyfleoedd o fewn pynciau eraill lle mae disgyblion yn gallu datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig. O ganlyniad, mae'r disgyblion bellach yn cael cyfleoedd rheolaidd i ysgrifennu ar gyfer ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd ac i gymhwyso eu medrau mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Serch hynny, mae disgyblion yn orddibynnol ar ganllawiau sy'n cael eu rhoi iddynt gan athrawon ac mae hyn yn llesteirio eu gallu i weithio'n annibynnol.

Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion ac ar safonau ysgrifennu Saesneg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae safonau a chywirdeb gwaith ysgrifennu llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn y Saesneg yn dda er bod lle i barhau i wella sillafu, gramadeg a chyflwyniad y gweddill.

### Argymhelliad 2: Sicrhau bod cynllunio yn cynnig digon o her i'r disgyblion mwyaf galluog

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r staff wedi cydweithio ar systemau i gryfhau gweithdrefnau cynllunio ar draws yr ysgol er mwyn cynnig digon o her i ddisgyblion mwy abl a thalentog. O ganlyniad, mae'r gwaith yn llyfrau'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos bod y ddarpariaeth yn cynnig her effeithiol i'r disgyblion mwyaf galluog mewn llawer o agweddau ar eu gwaith. Serch hynny, nid oes cysondeb yn y cynllunio i ymestyn y disgyblion hyn ym mhob maes dysgu a phwnc.

Mae asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn dangos bod cynnydd da yn y ganran sy'n cyrraedd y deilliannau uwch ym mhob maes dysgu. Mae hyn yn

arbennig o wir o ran datblygiad personol a chymdeithasol lle mae cynnydd o bron i 28 pwynt canran. Mae cynnydd da iawn hefyd yn y ganran sy’n cyrraedd y lefelau uwch ym mhob pwnc ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, gyda’r ysgol bellach yn cymharu’n ffafriol iawn gyda ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

**Argymhelliad 3: Cryfhau agweddau o asesu ac asesu ar gyfer dysgu**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gan yr ysgol strategaethau asesu ar gyfer dysgu effeithiol. Adolygwyd polisi marcio’r ysgol ac mae gwaith y disgyblion yn cael ei farcio’n rheolaidd a chyson. Mae’r disgyblion yn cael adborth adeiladol yn aml gan athrawon trwy ddefnydd o ‘ddwy seren a dymuniad’, gyda’r disgyblion yn ymateb yn briodol ar lafar i sylwadau’r athrawon yn y gwersi.

Mae cynllunio athrawon yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd ar gyfer hunanasesu, asesu cyfoedion a phartneriaid siarad. Mae athrawon yn nodi bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant yn glir. Mabwysiadwyd dulliau cadarn ar gyfer disgyblion i asesu eu dysgu eu hunain a gwaith eraill ar lafar, gyda hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae angen datblygu hyn ymhellach trwy roi cyfleoedd achlysurol iddynt gofnodi’r sylwadau hyn.

Mae gan yr ysgol systemau asesu priodol sy’n ffocysu ar agweddau ar ddatblygiad ieithyddol a mathemategol disgyblion. Defnyddir rhaglenni cyfrifiadurol yn briodol i olrhain cynnydd disgyblion yn rheolaidd. Mae’r athrawon hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch safoni a chymedroli yn fewnol ac fel clwstwr o ysgolion lleol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau asesu’r athrawon a’u deall o lefelrwydd yn y cwricwlwm cenedlaethol. O ganlyniad, mae portffolios gwaith yn sicrhau cysondeb ysgol gyfan wrth ddyfarnu deilliannau a lefelau cyrhaeddiad i’r disgyblion.

Hyd yn hyn, nid yw’r wybodaeth yn deillio o asesiadau yn cael ei defnyddio’n benodol i nodi agweddau lle mae angen gwelliant wrth lunio adroddiad hunanarfarnu’r ysgol.

**Argymhelliad 4: Gwella ansawdd yr arweinyddiaeth a’r rheolaeth yn arbennig yn y broses o hunanarfarnu**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae polisi a gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol wedi eu hadolygu yn ddiweddar ynghyd â chyfrifoldebau staff ar draws yr ysgol. Trwy hyn, llwyddwyd i sicrhau ymglymiad pob un o’r athrawon yn y broses hunanarfarnu.

Bellach, mae rhaglen briodol ar gyfer hunanarfarnu tros ddwy flynedd wedi ei gosod yn ei lle. Mae’r broses yn cynnwys sylw priodol i ddadansoddi data, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a siarad â dysgwyr. Yn ogystal, mae’r ysgol wedi dechrau defnyddio holiaduron i geisio barn disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr am gryfderau a meysydd i’w gwella. Serch hynny, nid yw’r prosesau hyn wedi eu rhoi ar waith yng nghyfnod allweddol 2 tan yn ddiweddar.

Nid yw’r arweinyddiaeth wedi cynllunio ar gyfer darparu hyfforddiant i’r staff ar y medrau angenrheidiol ar gyfer hunanarfarnu effeithiol da. O ganlyniad, mae safon yr adroddiadau arsylwi yn amrywio gormod, yn enwedig o ran rhoi ffocws ar safonau cyflawniad a nodi agweddau lle mae angen gwelliant.

Tra bod yr adroddiad hunanarfarnu diweddaraf yn adnabod rhai cryfderau a materion sydd angen eu datblygu, nid yw’r broses eto yn ddigon cadarn. O ganlyniad, nid yw’r adroddiad yn darparu trosolwg cywir o’r hyn sydd angen ei wella. Nid yw’r adran ar safonau yn ddigon arfarnol, nid yw’r deongliadau data yn ddigon treiddgar, yn enwedig o ran cymharu perfformiad â chanlyniadau ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim. Ymhellach, nid yw’r adran ar arweinyddiaeth yn ddigon hunanfeirniadol.

Er bod cysylltiad rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu’r ysgol, nid yw’r cynllun datblygu yn nodi strategaethau cynhwysfawr ar gyfer mynd i’r afael â’r blaenoriaethau.

**Argymhelliad 5: Datblygu ymhellach rôl y corff llywodraethu fel cyfaill beirniadol**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae strwythur y corff llywodraethol a chyfrifoldebau’r llywodraethwyr yn cael eu hadolygu’n flynyddol ac mae gan bob llywodraethwr gyfrifoldebau penodol. Serch hynny, megis dechrau mae ymweliadau ffurfiol gan y llywodraethwyr â’r ysgol ar gyfer cynnal teithiau dysgu penodol fel rhan o’r broses hunanarfarnu.

Datblygiad diweddar i gryfhau rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol fu penodi is-bwyllgor strategol i weithio tuag at Nod Ansawdd Corff Llywodraethol (Llywodraethwyr Cymru). Mae trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer cynnal cyfarfodydd y pwyllgor hwn.

Nid yw’r llywodraethwyr wedi derbyn hyfforddiant ar y medrau angenrheidiol ar gyfer gweithredu fel cyfeillion beirniadol. O ganlyniad, mae’r llywodraethwyr yn rhy ddibynnol ar y wybodaeth sy’n cael ei darparu iddynt. Nid yw’r adroddiadau y maent yn eu derbyn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i weithredu fel cyfeillion beirniadol.

**Argymhelliad 6: Ffurfioli’r trefniadau diogelwch ymhellach**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol.

Nid yw’r trefniadau diogelwch yr ysgol wedi eu ffurfioli digon ac nid oedd yr arweinyddiaeth yn ddigon ymwybodol o berygl. Tynnwyd sylw’r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr at hyn.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai’r ysgol barhau i weithio tuag at gyflawni’r argymhellion arolygu nad aethpwyd i’r afael â nhw’n llawn eto.